

Rhyddid

Darllen: Datguddiad 21:3

Rwy'n cofio dweud ar bregeth ryw dro fy mod yn gweld ac yn teimlo Duw yng nghanol y greadigaeth, wrth gerdded y llechweddau, neu ar lan y môr, neu yng nghyfrinachau a dirgelion byd natur. Ychwanegais fy mod yn ei weld hefyd mewn pobl, ac yn ei deimlo yn yr oedfaon ac yn yr ystafell ddirgel ar fy mhen fy hun. Ar ddiwedd y bregeth, daeth un o'r blaenoriaid ataf a mynnu nad oeddwn i ddweud fy mod yn gweld Duw yn ei greadigaeth. I'r blaenor hwn ac i lawer ohonom, perthyn i'r addoldy neu'r gyfundrefn grefyddol y mae Duw, ac yr ydym yn amharod i dderbyn bod y byd i gyd yn diriogaeth Duw. Ond profiad yr emynydd oedd, 'Mae Duw yn llond pob lle / Presennol ymhob man'. Yn y Beibl, nid Duw wedi'i gaethiwo yw Duw, ond Duw sydd ar waith ym mywydau pobl ac ym mywyd y byd.

Gwendid yr Iddewon yn nyddiau Iesu Grist oedd credu mai oddi mewn i'r gyfundrefn grefyddol Iddewig yr oedd Duw yn gweithredu, ac mai Duw i'r Iddewon yn unig ydoedd. Gydol ei weinidogaeth, ceisiodd Iesu argyhoeddi'i bobl fod Duw a'i orwelion yn llawer ehangach. Yn ôl Efengyl Mathew, pan fu farw Iesu ar y groes, 'dyma len y deml yn cael ei rhwygo yn ddwy o'r pen i'r gwaelod' (Mathew 27:51). Defnyddiodd Mathew hyn fel symbol o ryddhau Duw o gulni'r system grefyddol. Bryd hynny, dim ond yr archoffeiriad a gai fynediad i'r cysegr sancteiddiolaf, a hynny ar un dydd o'r flwyddyn. Roedd marwolaeth Iesu yn cyhoeddi fod Duw wedi ei ryddhau, neu fod tragwyddol heol wedi ei rhoi i bawb ddod i'w bresenoldeb.

Un dasg ddiddorol i bob gweinidog neu offeiriad yw cael tywys criw o blant yr ysgol leol o gwmpas adeiladau'r capel neu'r eglwys. Daeth criw o blant 9 i 11 oed i weld y capel acw, ac wedi dangos y pulpud, y sêd fawr, y seddau, bwrdd y cymun a'r fedyddfaen dyma un o'r genethod yn dod ataf yn ddistaw gan bwyntio at y drws sy'n arwain i'r ysgoldy, 'Yn fan

acw mae Duw, ia?’ Cwestiwn digon rhesymol gan ein bod yn cyfeirio at yr addoldy fel ‘Tŷ Dduw’. Mewn gwirionedd, mae llawer ohonom yn dal i feddwl mai oddi mewn i furiau’r addoldy yn unig y mae Duw. Mae’n hen bryd ei ryddhau, a’i weld ar waith yn y byd ac ym mywydau pobl ym mhob man. Y mae Duw’n bresennol yn nigwyddiadau beunyddiol ein bywydau, lle bynnag yr ydym; mae’n arglwyddiaethu ar ddigwyddiadau hanes; ac mae yng nghanol cyffro ein bywydau yn y byd modern. Yn aml iawn, anghofiwn hynny, gan gredu mai oddi mewn i furiau’r capel y mae’n trigo, ac fe’i gadawn yno ar ôl oedfa’r Sul tan y Sul dilynol.

Tasg yr Eglwys Gristnogol a phob Cristion yw atgoffa’r byd o bresenoldeb Duw, a rhyddhau Duw o lyffetheiriau’r addoldy a thystio iddo yn y byd, yn y gymdeithas, ar yr aelwyd, ac yn y gweithle. Mae’r grefydd Gristnogol yn ein herio i godi o’n seddau cyffyrddus a diogel a byw ein bywydau yn y byd. Chafodd Iesu fawr o groeso yn y synagog, na chwaith gan yr awdurdodau crefyddol, ac felly doedd ond un ffordd iddo fynd. Allan yn y byd, yng nghanol ei bobl, y bu’n gwasanaethu. Mae’n gofyn i ninnau fyw yn y byd gan gofio mai byd Duw yw hwn ac mai ei bobl ef yw pobl y byd. I hyn y’n galwyd. Rhyddhawn Dduw o gaethiwed ein haddoldai.

Myfyrdod pellach:

Ydyn ni’n cyfyngu ar Dduw?

Sut mae rhyddhau Cristnogion i wneud gwaith Duw yn y byd?